# COD YMDDYGIAD CYFRANDDALIWR

## 1. Pwrpas

Pwrpas y cod ymddygiad hwn yw egluro cyfrifoldebau holl gyfranddalwyr Adra, ac amlinellu sut y dylent ymddwyn.

## 2. Pryd mae'r cod ymddygiad yn gymwys?

Mae'r cod ymddygiad hwn yn gymwys ar gyfer holl gyfranddalwyr pan maent yn mynychu Cyfarfodydd Cyffredinol, unrhyw gyfarfod Adra arall neu wrth wneud busnes fel cyfranddaliwr[1]

Mae'r Cod Ymddygiad hefyd yn gymwys i'r holl gyfranddalwyr pan maent yn cyfathrebu ag eraill yn rhinwedd eu swydd fel cyfranddalwyr.

Mae'r gofyniad i gadw cyfrinachedd yn gymwys ar gyfer holl gyfranddalwyr bob amser.

## 3. Gweithredu er budd pennaf Adra

Gofynnir i gyfranddalwyr weithredu er budd pennaf Adra bob amser yn rhinwedd eu swydd fel cyfranddalwyr.

## 4. Trin eraill yn deg a dangos parch

4.1. Gofynnir i'r holl gyfranddalwyr gynnal gwerthoedd Adra ac ymddwyn yn unol â'r cod ymddygiad hwn wrth siarad ag eraill naill ai mewn cyfarfod cyfranddalwyr neu gyfarfod arall.

4.2. Yn benodol, rhaid i gyfranddalwyr:

   a. barchu barn eraill a rhoi cyfle i gyd-gyfranddalwyr ag eraill i fynegi barn heb darfu nag amharu;
   b. cefnogi ac annog cyfranddalwyr a phartïon perthnasol eraill i ymuno â'r drafodaeth a'r ddadl, ac i rannu eu syniadau ac awgrymiadau;
   c. ddangos parch wrth siarad â chyd-gyfranddalwyr a phartïon eraill gan osgoi gweiddi, codi llais, rhegi; ni ddylid defnyddio coegni ychwaith i danseilio eraill
   d. osgoi gwneud unrhyw sylwadau personol, bychanu na dilorni cyfranddalwyr eraill;
   e. osgoi dangos iaith y corff negyddol neu fygythiol, fel rholio'r llygaid, ocheneidio, gwneud synau ayyb;

4.3. Bydd unrhyw ymddygiad sy'n groes i adran 4 yn cael ei drin fel tor amod difrifol o'r cod ymddygiad hwn.

[1] Mae'r Cod Ymddygiad yn defnyddio'r term 'cyfarfodydd cyfranddalwyr' i gyfeirio at holl gyfarfodydd o'r fath.

## 5. Mynychu cyfarfodydd cyfranddalwyr

5.1. Mae Adra yn ceisio cael grŵp dynamig o gyfranddalwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyfranddalwyr, ac felly yn goruchwylio busnes y sefydliad. Ni fydd Cyfarfodydd Cyffredinol fel arfer yn cael eu cynnal mwy nag unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, ac felly nid yw'r ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd yn ormodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cyfranddalwyr yn mynychu cyfarfodydd pan maent yn cael eu cynnal. Os nad ydynt yn gallu mynychu, disgwylir iddynt ymddiheuro ymlaen llaw.

5.2. O bryd i'w gilydd, bydd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu galw, fel arfer i ymdrin â busnes arbennig neu frys os yw'n codi. Ni fydd achlysuron o'r fath yn digwydd yn aml, fodd bynnag, mae'n hynod bwysig bod cyfranddalwyr yn ymdrechu i fynychu'r cyfarfodydd hyn.

## 6. Ymddygiad yn ystod cyfarfodydd cyfranddalwyr

6.1. Yn ystod cyfarfod cyfranddalwyr, disgwylir i bob cyfranddaliwr:

a. fynychu cyfarfodydd cyfranddalwyr pan maent yn cael eu cynnal, ymddiheuro cyn y cyfarfod os nad ydynt yn gallu mynychu;
b. paratoi ar gyfer cyfarfodydd drwy ddarllen unrhyw bapurau neu ddogfennau eraill sydd wedi'u hanfon atynt cyn y cyfarfod;
c. cyrraedd ar amser ar gyfer dechrau cyfarfodydd, a dod yn ôl i'r cyfarfod yn brydlon ar ôl unrhyw egwyl. Dylai'r rhai sy'n cyrraedd yn hwyr ddod i mewn yn dawel a pheidio ag amharu ar y cyfarfod gydag ymddiheuriadau;
d. sicrhau bob pob ffôn symudol a dyfeisiau eraill wedi'u diffodd neu eu bod yn dawel; ni ddylid eu defnyddio yn ystod cyfarfodydd (ac eithrio mewn argyfwng);
e. cadw at yr agenda sydd wedi'i baratoi ar gyfer y cyfarfod;
f. trin cyfranddalwyr eraill a phawb arall sy'n bresennol yn deg a dangos parch, fel sydd wedi'i nodi yn adran 4 uchod.

6.2. Ni ddylai cyfranddaliwr ar unrhyw gyfrif greu fideo na recordio cyfarfod cyfranddalwyr.

## 7. Cyfrinachedd

7.1. Bydd cyfranddalwyr yn cael gwybodaeth gyfrinachol am fusnes Adra ac mewn rhai achosion am ei denantiaid.

7.2. Mae "Gwybodaeth Gyfrinachol" yn cynnwys y canlynol:

a. holl wybodaeth yn ymwneud â phobl - tenantiaid a les ddeiliaid neu ddarpar denantiaid a les ddeiliaid, staff, ac Aelodau'r Bwrdd ayyb.

b. holl wybodaeth yn berthnasol i fusnes Adra, sydd:
   (i) wedi'i farcio'n gyfrinachol (naill ai yn ysgrifenedig, neu nodir ar lafar pan ddatgelir ei fod yn wybodaeth gyfrinachol);
   (ii) yn berthnasol i gyllid Adra;
c. unrhyw wybodaeth ychwanegol y byddai'n rhesymol disgwyl ei ystyried yn gyfrinachol i fusnes Adra, ei denantiaid, les ddeiliaid, staff, neu Aelodau Bwrdd Adra.

7.3. Rhaid i Gyfranddalwyr gadw Gwybodaeth Gyfrinachol yn gyfrinachol, ac yn benodol ni ddylent:

a. ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol i unrhyw unigolyn nad yw'n gyfranddaliwr Adra neu aelod o fwrdd Adra, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan fwrdd Adra (oni bai ei bod yn ofynnol yn unol â'r gyfraith i wneud hynny); neu
b. ddefnyddio neu ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol a ddaeth i law yn rhinwedd eu swydd fel cyfranddaliwr er mantais i'w hunain, er budd eu hunain neu eraill sy'n gysylltiedig â nhw.

7.4. Os gofynnir i gyfranddaliwr ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol ac os nad ydynt yn siŵr os caniateir hyn, dylent hysbysu'r bwrdd cyfarwyddwyr ar unwaith. Dylent egluro natur y cais a phwy sy'n gofyn am wybodaeth o'r fath. Yna, bydd y bwrdd cyfarwyddwyr yn ystyried y cais ac a ddylai'r bwrdd gydymffurfio neu beidio ar ran Adra.

7.5. Os yw cyfranddaliwr o'r farn bod tor cyfrinachedd wedi digwydd, dylent hysbysu bwrdd cyfarwyddwyr Adra ar unwaith fel bod modd iddynt ystyried pa gamau os o gwbl a ddylid eu cymryd i liniaru'r risg yn sgil camddefnydd o Wybodaeth Gyfrinachol.

7.6. Bydd y ddyletswydd cyfrinachedd a nodir yn adran 7 yn parhau ar ôl i'r unigolyn beidio â bod yn gyfranddaliwr am unrhyw reswm. Os yw unigolyn yn peidio â bod yn gyfranddaliwr, bydd gofyn iddynt ddychwelyd unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol i fwrdd Adra, a dileu yn barhaol unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n cael ei ddal yn electronig ar unrhyw ddyfais.

## 8. Gwrthdaro Buddiannau

Mae natur yr eitemau y mae Cyfranddalwyr ynghlwm â nhw yn golygu ei fod yn annhebygol y bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn codi. Fodd bynnag, os yw Cyfranddaliwr yn teimlo bod ganddynt fudd mewn unrhyw fater sy'n cael ei gyflwyno, dylent godi hyn â Chadeirydd y cyfarfod neu Ysgrifennydd y Cwmni. Efallai bod budd o'r fath yn bersonol, neu yn gysylltiedig â grŵp y maent yn eu cynrychioli. Efallai y byddai'n dylanwadu'r Cyfranddaliwr, ac felly, yn effeithio ar eu gallu i ymddwyn er budd pennaf y gymdeithas, ac felly yn cael ei ystyried gan Ysgrifennydd y Cwmni.

## 9. Methu â dilyn y cod ymddygiad hwn

Os yw cyfranddaliwr yn gweithredu’n groes i unrhyw un o ddarpariaethau’r cod ymddygiad hwn, efallai y byddant yn cael eu diarddel fel cyfranddaliwr Adra. Rheolau a Pholisi Cyfranddaliwr Adra sy’n llywodraethu’r mater yma.

DATGANIAD

*(Ni chaniateir aelodaeth Cyfranddaliwr i Gyfranddalwyr sy’n gwrthod cytuno i’r Cod Ymddygiad hwn.)*

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Cod Ymddygiad hwn ac y byddaf yn cadw at ei gynnwys.

Enw: _________________________

Llofnod: __________________________

Dyddiad: _______________________